

Paper 9

Rebecca Evans AS

Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Drwy e-bost

0300 200 6565 

@Senedd 

@SeneddWales 

/SeneddWales 

Dyddiad | Date: 19eg Gorffennaf 2021

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r datganiadau ysgrifenedig cyson sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn hysbysu am eich penderfyniadau mewn ymateb i argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") fel rhan o'r adolygiad o ffiniau etholiadol awdurdodau lleol.

Ysgrifennaf yn benodol i gyfleu pryder ac i geisio sicrwydd pellach am eich penderfyniadau wrth bennu enwau arfaethedig ar wardiau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Credaf fod materion ehangach o bwys i'r broses yn ei chyfanrwydd yn deillio o hynny yn ogystal – o safbwynt a yw'r gwiriadau priodol ar waith i sicrhau ansawdd a thryloywder penderfyniadau arwyddocaol ar strwythur a threfn ein democratiaeth, yn enwedig mewn achosion pan fo'r penderfyniadau hynny yn gwyro oddi ar argymhellion y Comisiwn annibynnol sydd wedi'i gyfarwyddo i arwain y gwaith.

Nid oes angen imi bwysleisio pwysigrwydd annibyniaeth proses o'r fath i ddiogelu rhag dylanwad gwleidyddol amhriodol, neu'r canfyddiad o hynny.

Croesawaf y ffaith bod cryn ystyriaeth wedi'i roi – fe ymddengys – fel rhan o'r gwaith o adolygu ffiniau etholiadol i geisio safoni enwau'r wardiau ac fe adlewyrchir hynny yn yr argymhellion terfynol. Ystyrir bod gan safoni rôl bwysig i hwyluso defnydd priodol o'r enwau a ddefnyddir i gyfeirio at wardiau yn ieithoedd Cymru ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael triniaeth llai ffafriol na'r Saesneg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus. Gallai gynnig cyfleoedd yn ogystal i hyrwyddo normaleiddio defnydd y Gymraeg a chryfhau is-adeiledd yr iaith a pha mor rhwydd yw hi i bobl ei defnyddio yn hyderus felly, yn unol â chenadwri Strategaeth *Cymraeg2050* Llywodraeth Cymru.

Mae'n ymddangos y bu cydweithio agos yn y cyswllt hwn rhwng y Comisiwn a Chomisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") sydd yn synhwyrol ac yn addas gan bod gan y Comisiynydd gyfrifoldeb i

gynnig cyngor ac argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd i Weinidog Cymru. Deallaf fod y Comisiynydd wedi cynnull panel o arbenigwyr – Panel Safoni Enwau Lleoedd – i'w gefnogi i gyflawni'r swyddogaeth hon ac yr wyf ar ddeall hefyd bod swyddog o Lywodraeth Cymru yn eistedd ar y Panel. Cyhoeddodd y Comisiynydd **Ganllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru** ac mae'r Panel yn defnyddio'r Canllawiau Safoni Cenedlaethol wrth lunio'i argymhellion.

Er hyn, roedd yn syndod gweld o'r datganiadau ysgrifenedig yn achos sawl un o wardiau'r awdurdodau lleol rydych chi wedi cyhoeddi eich penderfyniad ar eu cyfer hyd yma eich bod chi wedi mabwysiadu polisi enwi gwahanol, yn groes i argymhellion y ddau gorff (Y Comisiwn a'r Comisiynydd) mewn sawl achos.

Rwyf yn cynnwys er eich sylw a'ch ystyriaeth yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn ddogfen Excel sy'n cynnwys detholiad o waith dadansoddi sydd wedi'i gynnal gan fy nhîm ar rai o'r penderfyniadau a gyhoeddwyd hyd yma i geisio mynd i wraidd y mater. Yng ngoleuni hyn, gofynnaf i chi gadarnhau –

1. Beth yw'r broses yr ydych chi fel Gweinidog wedi'i dilyn wrth ddod i benderfyniad ar argymhellion y Comisiwn, gan gynnwys ar gyfer pennu enw neu enwau arfaethedig ar gyfer wardiau?

2. Ar ba sail y gwnaethoch chi ddod i gasgliadau croes i'r Comisiwn a/neu y Comisiynydd yn achos enw/enwau arfaethedig wardiau'r awdurdodau lleol hynny a gyhoeddwyd gennych hyd yma?

3. Pa asesiad wnaed ar effaith y penderfyniadau hyn ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar y gofyniad i Weinidogion Cymru beidio trin y Gymraeg yn llai ffafrio'r na'r Saesneg?

4. Pa egwyddorion ydych chi wedi'u mabwysiadu, os o gwbl, i dywys y gwaith pennu enw neu enwau arfaethedig er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol?

5. A yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ddogfen *Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru* fel y ddogfen ganllaw cydnabyddedig i'w defnyddio fel sail i benderfyniadau awdurdodau sydd â chyfrifoldebau statudol dros enwi yn gyffredinol, fel sydd gan Weinidogion Cymru yn yr achos hwn?

Byddai'n ymddangos yn gam gwag diystyru arbenigedd y Panel sydd wedi'i gynnull a'r adnodd cyhoeddus sydd wedi'i roi i gefnogi gwaith y Comisiynydd yn y maes yma heb fod yna reswm da dros hynny. Byddai hynny'n arbennig o wir os oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli ar y Panel.

Mewn egwyddor, mae'n ymddangos yn rhesymol y dylid cydio yn y cyfle i roi enw unigol, safonol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg fel 'Llwyn-y-pia', er enghraifft. Yn yr un modd, os nad oes sail neu ddadl gref i'r gwrthwyneb, dylid cydnabod yr enw unigol 'Fairwood', er enghraifft, ar y ward benodol honno yn Abertawe yn y ddwy iaith, gan osgoi cyflwyno enw gwneud Cymraeg. Mae cynsail yn y safbwynt hwn yn y defnydd o'r enwau 'Pierhead' a 'Senedd', er enghraifft lle bod un enw cydnabyddedig yn y ddwy iaith.

Fel mae'n sefyll, mae'r penderfyniad i gydnabod 'Llwyn-y-pia' fel enw Saesneg a 'Llwynypia' fel yr enw Cymraeg ar y ward dan sylw yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, yn ymddangos yn ddiffygiol ac yn afresymegol. Mae hefyd anghysondeb gan eich bod wedi penderfynu rhoi'r enw 'Pen-y-groes' yn Gymraeg a 'Penygroes' yn Saesneg ar y ward berthnasol yn Sir Gaerfyrddin, er gwaetha'r ffaith mai enw cynhennid Cymraeg ydyw waeth beth fo'r sillafiad safonol cydnabyddedig.

Er cyflawnder, dylid nodi bod amryfuseddau wedi'u nodi rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg adroddiadau'r Comisiwn. Nodir hyn y tabl yn Atodiad 1 isod. Efallai bod hyn yn rhywbeth i'ch swyddogion wirio yn gyffredinol gyda'r Comisiwn.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn i Gadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol yn y Senedd, i'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Phrif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Edrychaf ymlaen at dderbyn ymateb amserol a chyflawn i'r pwyntiau hyn.

Yn gywir iawn,

Llyr Gruffydd AS

Ward**Terfynol LDBCW****Terfynol CYG****Terfynol LLC**

Ward Llwyn-y-pia (yn y fersiwn Saesneg) Llwynypia (yn y fersiwn Cymraeg)	Enw unigol o Llwyn-y-pia	Cytuno gyda'r Comisiwn yn y ddau fersiwn (Cymraeg a Saesneg)	Anghytuno - dau enw - Llwyn-y-pia (S) Llwynypia (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff	(Anghysondeb yn y cynigion terfynol Cymraeg a Saesneg - dangos Llwyn-y-Pia yn
---	--------------------------	--	---	---	---

Yn y Cynigion Drafft (Cymraeg) nodwyd: *Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol Llwyn-y-Pia i'r ward etholiadol. Ystyriodd Comisiynydd yr Iaith yr enw a chynigiodd yr enw unigol Llwynypia, oherwydd dyma'r ffurf a argymhellir yn y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, sef y Rhestr o Enwau Lleoedd (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Ni ddylid gwyro oddi wrth ei argymhellion heb reswm da. Nid oes angen cysylltnodau yn yr enw hwn i helpu i'w ynganu. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen.*

Ward Ynysybwl	Enw unigol o Ynysybwl	Anghytuno - enw unigol o Ynys-y-bwl	Anghytuno - dau enw - Ynysybwl (S) Ynys-y-bwl	Anghytuno gydag argymhellion y ddau	
----------------------	-----------------------	-------------------------------------	---	-------------------------------------	--

Yn y Cynigion Drafft (Cymraeg), nodwyd: *Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol Ynysybwl i'r ward etholiadol gan ddefnyddio'r enw ward a nodwyd yng Ngorchymyn Trefniadau Etholiadol 1998. Ystyriodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw a chynigiodd yr enw unigol Ynys-y-bwl. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi bod y cysylltnod yn cael ei ddefnyddio mewn enwau lleoedd Cymraeg pan fo'r fannod (y/yr) yn ymddangos cyn unsillaf olaf; defnyddir cysylltnodau cyn ac ar ôl y fannod i amlygu'r elfennau unigol a helpu i ynganu'r enw. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen.*

Ward Cwmbach	Enw unigol o Cwmbach	Cytuno gyda'r Comisiwn	Anghytuno - dau enw - Cwmbach (S) Cwm-bach (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff	(Anghysondeb yn y cynigion terfynol Cymraeg a Saesneg). Yn y Gymraeg, nodir bod y CyG wedi cynnig Cwmbach, ond yn y Saesneg, nodi bod y Comisiynydd yn cytuno â'r argymhelliad).
<p>Yn y Cynigion Drafft (Cymraeg) nodwyd y canlynol am Cwmbach - <i>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol Cwmbach i'r ward etholiadol. Ystyriodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw a chynigiodd yr enw unigol Cwm-bach, oherwydd dyma'r ffurf a argymhellir yn y cyfeirlyfr safonol cenedlaethol, sef y Rhestr o Enwau Lleoedd, ac oherwydd bod y cysylltnod yn cael ei ddefnyddio i helpu i ynganu'r enw hwn trwy ddangos bod y pwyslais ar y sillaf olaf. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen.</i></p>					

Ward Pont-y-clun	Enw unigol o Pont-y-clun	Cytuno gyda'r Comisiwn	Anghytuno - dau enw - Pontyclun (S) Pont-y-clun (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff	
<p>Yn y Cynigion Drafft (Cymraeg) nodwyd y canlynol am Pont-y-clun: <i>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol Pont-y-clun i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â chynnig y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. Nodir yn yr adroddiadau er hynny bod y Comisiwn wedi derbyn cynrychiolaethau yn gawl am gadw'r enw 'Pontyclun' ar gyfer y ward "gan y derbynnir y ffurf hon yn gyffredin yn lleol yn y ddwy iaith".</i></p>					

Abertawe

Ward	Argymhelliad Terfynol LDBCW	Argymhelliad Terfynol CYG	Penderfyniad Terfynol LLC
Ward Fairwood	Enw dwyieithog - Fairwood (S) Llwynteg (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn. Argymhell enw unigol o Fairwood.	Un enw - Fairwood Cytuno gyda'r Comisiynydd
Ward St Thomas	Enw dwyieithog - St Thomas (S) Sain Tomos (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn. Argymhell enw unigol o St Thomas.	Un enw - St Thomas Cytuno gyda'r Comisiynydd
Ward Townhill	Enw dwyieithog - Townhill (S) Pen y Graig (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn. Argymhell enw unigol o Townhill.	Un enw - Townhill Cytuno gyda'r Comisiynydd
Ward Uplands	Enw dwyieithog - Uplands (S) Tir Uchel (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn. Argymhell enw unigol o Uplands.	Un enw - Uplands Cytuno gyda'r Comisiynydd
Ward West Cross	Enw dwyieithog - West Cross (S) Y Groesffordd (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn. Argymhell enw unigol o West Cross.	Un enw - West Cross Cytuno gyda'r Comisiynydd
Ward Pontlliw a Tircoed	Pontlliw and Tircoed (S) Pontlliw a Thir-coed (C)	Cytuno gyda'r argymhelliad	Tircoed (S) Pontlliw a Thir-coed (C) Comisiynydd a'r Comisiwn

Abertawe - yn wreiddiol, roedd cynigion drafft y Comisiwn yn argymhell cadw'r enw Saesneg yn unig (ar wahân i Pontlliw a Tircoed lle cynigir enw dwyieithog). Cytunodd y Comisiynydd gyda'r cynigion drafft. Ond yn dilyn derbyn cynrychiolaethau o blaid cael enw dwyieithog, penderfynodd y Comisiwn argymhell enwau dwyieithog. Roedd hyn yn groes i farn y Comisiynydd.

Barn y Comisiynydd: Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn awgrymu cadw'r enw unigol {enw'r Ward}, oherwydd y mae perygl y gall bathu enw Cymraeg newydd beri dryswch, gan nad yw'r lle'n hysbys dan yr enw hwnnw ac nid oes unrhyw sail hanesyddol i'r enw.

Sir Gaerfryddin

Ward	Argymhelliad Terfynol LDBCW	Argymhelliad Terfynol CYG	Penderfyniad Terfynol LLC	
Betws	Enw unigol - Betws	Anghytuno - enw unigol Y Betws	Enw dwyieithog - Betws (S) Y Betws (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Garnant	Enw unigol - Garnant	Anghytuno - enw unigol Y Garnant	Enw dwyieithog - Garnant (S) Y Garnant (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Gorslas	Enw unigol - Gorslas	Anghytuno - enw unigol Gors-las	Enw dwyieithog - Gorslas (S) Gors-las (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Penygroes	Enw unigol - Penygroes	Anghytuno - enw unigol Pen-y-groes	Enw dwyieithog - Penygroes (S) Pen-y-groes (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Whitland	Enw dwyieithog - Whitland (S) Hendy-Gwyn (C)	Enw dwyieithog - Whitland (S) Hendy-gwyn ar Daf (C)	Enw dwyieithog - Whitland (S) Hendy Gwyn ar Daf	Cytuno gyda'r Comisiynydd
Dafen and Felinfoel	Enw dwyieithog - Dafen and Felinfoel (S) Dafen a Felinfoel (C)	Anghytuno gyda'r Comisiwn - Dafen and Felin-foel (S) Dafen a Felin-foel (C)	Enw dwyieithog - Dafen and Felinfoel (S) Dafen a Felin-foel (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Trelech	Enw unigol - Trelech	Anghytuno gyda'r Comisiwn - Enw unigol - Tre-lech	Enw dwyieithog - Trelech (S) Tre-lech (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff
Tycroes	Enw unigol - Tycroes	Cytuno gyda'r Comisiwn	Enw dwyieithog - Tycroes (S) Tŷ-croes (C)	Anghytuno gydag argymhellion y ddau gorff

Yn y cynigion drafft, nodir bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig defnyddio'r enw unigol Tŷ-croes gan nodi mai Tŷ-croes yw'r ffurf Gymraeg safonol a argymhellir gan y llyfr cyfeirio Rhestr o Enwau Lleoedd. Ond yn yr Adroddiad Terfynol, nodir: Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Tycroes yn y Cynigion Drafft. Cytunodd Comisiynydd y Gymraeg â'r enw arfaethedig.